



# Modelau amgen o ofal cartref

## Cyd-destun polisi

Mae gofal cartref yn wynebu cyfuniad o alw cynyddol a phwysau ariannol parhaus. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd recriwtio a chadw staff ac yn golygu bod y farchnad yn parhau i fod yn fregus. Mae'r pandemig COVID-19 wedi amlygu'r heriau hyn, ond gallai hefyd ddarparu ysgogiad ychwanegol i'r ymdrechion i ddod o hyd i ffyrdd newydd a gwell o ddarparu gofal o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn y cartref.

Gofynnwyd i ni gan Brif Weinidog Cymru i adolygu enghreifftiau dewisedig o fodelau gwahanol o ddarpariaeth gofal yn y cartref, sydd wedi cael eu datblygu mewn rhan arall o'r DU neu mewn gwledydd eraill, a allai gynnig mewnwelediad gwerthfawr i Gymru. Mae'r papur briffio hwn yn crynhoi ein canfyddiadau.

**Yr hyn sy'n bwysig yw arweinyddiaeth a diwylliant sy'n canolbwyntio ar ddarparu gofal o ansawdd uchel a gwell amodau gwaith.**

## Gofal cartref yng Nghymru

Mae'r mwyafrif o ofal cartref yng Nghymru yn cael ei ddarparu gan y sector preifat, gyda rhywfaint o ofal mwy arbenigol a chymhleth yn cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol a chyfran fach yn cael ei ddarparu gan sefydliadau nid-er-elw. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gofyn i awdurdodau lleol hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau

cydweithredol, gwasanaethau a arweinir gan y defnyddiwr, a'r trydydd sector, ac mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i 'ail-gydbwysu'r farchnad'. Mae dehongliadau o beth mae hyn yn ei olygu'n ymarferol yn amrywio o annog mwy o ddarparwyr trydydd sector, i ddod â'r holl ofal yn ôl yn fewnol i awdurdodau lleol. Cytunodd arbenigwyr y gwnaethom siarad â hwy fod y farchnad bresennol yn anghynnaladwy ond pwysleisiwyd nad perchnogaeth yw'r broblem allweddol. Mae enghreifftiau o ofal da a gofal sydd ddim cystal yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, a'r hyn sy'n bwysig yw arweinyddiaeth a diwylliant sy'n canolbwyntio ar ddarparu gofal o ansawdd uchel a gwell amodau gwaith, beth bynnag yw'r math o ddarparwr.

## Arferion y DU

Mae tystiolaeth am weithrediad ac effeithiolrwydd mentrau a masnachfreintiau cymdeithasol, cwmnïau masnachu awdurdod lleol a dulliau arloesol eraill o ddarparu gofal cartref sydd wedi'u datblygu yn Lloegr ac yn yr Alban yn awgrymu'r canlynol:

- Gall microfentrau gynnig gofal mwy personol a chryfhau'r economi sylfaenol heb gynyddu costau yn sylweddol. Gallent fod yn effeithiol yn enwedig mewn cymunedau gwledig. Fodd bynnag, mae modelau llwyddiannus yn Lloegr yn aml wedi dibynnu ar daliadau uniongyrchol a hunan-arianwyr.
- Gall trefniadau masnachfreintiau alluogi darparwyr llai i ymuno â'r farchnad drwy ddarparu cymorth ymarferol ac ariannol. Fodd bynnag, mae eu cefnogaeth yn ddibynnol ar gyd-destun lleol gan

gynnwys argaeledd cyllid allanol a gallent ei chael hi'n anodd i weithredu ar raddfa.

- Mae llwyddiant cwmnïau masnachu awdurdod lleol wedi amrywio ac yn dibynnu ar reoli effeithiol a natur y marchnadoedd lleol gan gynnwys cyfran o hunan-arianwyr. Rhybuddiodd arbenigwyr y gwnaethom siarad â hwy fod sawl cwmni masnachu wedi cael trafferthion ariannol oherwydd arweinyddiaeth a rheoli aneffeithiol.
- Mae llawer o'r dulliau arloesol sydd wedi gweithio orau wedi cynnwys comisiynu wedi'i bersonoli a seiliedig ar ganlyniadau, wedi'i ategu gan berthynas seiliedig ar bartneriaeth rhwng comisiynwyr a darparwyr sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth.

## Arferion rhyngwladol

Mae sicrhau marchnad gofal cartref sefydlog ac amrywiol sy'n darparu gofal o ansawdd da yn her sy'n gyffredin mewn llawer o wledydd. Gwnaethom archwilio tri model o ddarpariaeth mewn gwledydd eraill:

- Daeth y model Buurtzorg o'r Iseldiroedd yn wreiddiol ac mae'n cynnwys timau bach o nyrsys a chynorthwywyr nyrsio annibynnol, wedi'u lleoli yn y gymdogaeth, sy'n darparu gofal cartref yn ogystal â gofal clinigol. Cyfeirir ato'n aml fel ffordd o wella ansawdd heb gynyddu costau. Lle mae wedi cael ei fabwysiadu yn y DU, mae wedi darparu gofal o ansawdd da gydag adborth cadarnhaol gan staff a chleientiaid. Ond mae wedi gofyn am fuddsoddiad ychwanegol, yn ogystal â chomisiynu mwy hyblyg. Yn ychwanegol, mae buddiannau gofal ataliol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn aml yn hirdymor a gellid gwireddu arbedion costau mewn gwasanaethau cyhoeddus eraill, megis iechyd.

- Yn Norrtalje Sweden, crëwyd cwmni cyhoeddus i reoli gwasanaethau iechyd a gofal ar gyfer y rhanbarth. Crëwyd darparwr gofal integredig a chorff comisiynu integredig gyda chyfrifoldeb am iechyd a gofal cymdeithasol. Fel rhan o'r ymagwedd integredig hon at iechyd, gofal cymdeithasol ac adsefydlu, mae staff gofal cartref yn cydlynu ymyriadau ar draws y llwybr gofal cyfan. Mae'r dull yn darparu enghraifft o ail-ddychmygu'r system iechyd a gofal cymdeithasol cyfan fel bod gofal cartref wrth ei chraidd.
- Yn Quebec, mae cwmnïau gofal cydweithredol sy'n cynnwys staff, defnyddwyr gwasanaeth ac aelodau o'r gymuned yn darparu ystod o ofal iechyd a chymdeithasol. Cefnogir y mentrau cymdeithasol hyn gan rwydweithiau sefydledig a ariennir gan y llywodraeth i ddarparu cymorth ariannol ac ymarferol i gwmnïau cydweithredol newydd ac sy'n bodoli eisoes. Datblygwyd y cwmnïau cydweithredol yn rhannol i ddarparu dewis arall i'r boblogaeth Ffrangeg ei hiaith, yn lle darparwyr mwy, Saesneg eu hiaith. Mae eu llwyddiant wedi'i briodoli'n rhannol i amgylcheddau polisi a chyfreithiol cefnogol iawn a rhwydweithiau cymorth ariannol ac ymarferol sydd wedi'u hen sefydlu, nad ydynt yn bodoli yn y DU ar hyn o bryd.

## Gwersi allweddol

Mae tystiolaeth yn dangos yr hyn y mae pobl am ei gael gan ofal yn y cartref sef:

- Gofal cydgysylltiedig lle mae holl anghenion yr unigolyn yn cael eu diwallu, wedi'i ategu gan ffocws ar lesiant, annibyniaeth a chymunedau;
- Pobl a'u gofalwyr a'u teulu yn cymryd rhan;
- Gofal cyson a dibynadwy;
- Cydberthnasau da gyda staff gan gynnwys dull gofalgar a thosturiol;

- Staff sydd â digon o hyfforddiant a gallu; a
- Chyngor a gwybodaeth i alluogi pobl i wneud dewisiadau am eu gofal.

Mae'r dystiolaeth o'r modelau rydym wedi eu hadolygu yn dangos nad oes datrysiad syml sy'n addas i bob sefyllfa. Ond mae yna rhai egwyddorion arweiniol pwysig:

- Mae angen i ddarpariaeth gofal yn y cartref fynd ymhellach na'r hyn sy'n cael ei ddisgrifio'n draddodiadol fel gofal cartref ac ystyried y cyd-destun ehangach gan gynnwys asedau cymunedol, pwysigrwydd llesiant ac atal, a rôl y gofalmwr di-dâl a gwasanaethau eraill megis gofal iechyd a thai.
- Mae gofal cartref yn seiliedig ar berthynas. Mae ansawdd y gofal yn dibynnu ar y staff sy'n ei gyflenwi ac mae gwella eu statws, tâl ac amodau, a'u cyfleoedd i ddatblygu yn hanfodol. Mae hefyd yn bwysig eu bod yn gweithredu o fewn fframwaith comisiynu sy'n rhoi'r rhyddid a hyblygrwydd iddynt ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar y unigolyn ac

sydd wedi'i deilwra i anghenion pob unigolyn.

- Mae hyn yn golygu rhoi llais cryfach i unigolion a'u teuluoedd a datblygu cydberthnasau seiliedig ar ymddiriedaeth rhwng darparwyr a chomisiynwyr.
- Gall y dulliau 'amser a thasg' presennol o gomisiynu ymddwyn fel rhwystr i ddatblygu modelau newydd o ofal. Mae gan gomisiynu wedi'i bersonoli a seiliedig ar ganlyniadau y potensial i alluogi darparwyr o bob math i arloesi a darparu gofal sy'n hyblyg ac yn diwallu anghenion pobl yn well.
- Mae cyllidebau wedi'u gwasgu a galw cynyddol yn golygu fod awdurdodau lleol yn wynebu pwysau i gadw costau yn isel, a fydd yn ei dro yn rhoi pwysau ariannol ar ddarparwyr. Bydd gweithredu modelau newydd sy'n darparu gofal ataliol ac wedi'i bersonoli yn gofyn am fuddsoddiad ymlaen llaw yn ogystal â newidiadau i drefniadau ariannu sy'n bodoli eisoes gan gynnwys integreiddio cyllid iechyd a gofal cymdeithasol ymhellach.

## Find out more

Ar gyfer yr adroddiad llawn gweler Bennett, L., Park, M. & Martin, S.J. (2020). [Modelau amgen o ofal cartref](#). Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

## Ynglŷn â Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y Ganolfan, rydym yn cydweithio gydag arbenigwyr polisi blaenllaw er mwyn darparu tystiolaeth o ansawdd uchel a chyngor annibynnol i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru sydd yn eu helpu i wella penderfyniadau polisi a deilliannau.

Mae'r Ganolfan, sydd wedi ei hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a

Llywodraeth Cymru, wedi ei lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae'n rhan o Rwydwaith Beth Sy'n Gweithio y DU.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Laura Bennett**

+44 (0)29 2087 5345

[laura.bennett@wcpp.org.uk](mailto:laura.bennett@wcpp.org.uk)

### Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Prifysgol Caerdydd, 10/12 Plas yr Amgueddfa, Caerdydd, CF10 3BG



[www.wcpp.org.uk/cy](http://www.wcpp.org.uk/cy)



029 2087 5345



[info@wcpp.org.uk](mailto:info@wcpp.org.uk)



@WCfPP



Economic and Social Research Council



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government